# Ysgol Gymraeg Abercynon

Mrs Michelle Barry
Pennaeth
Headteacher

Mr Ioan Thomas
Dirprwy Bennaeth
Deputy Headteacher

Ysgol Gymraeg Abercynon
Greenfield Terrace
Glancynon
CF45 4TH

01443 740239
www.yggabercynon.cymru

Cenedl Heb Iaith, Cenedl Heb Galon

Annwyl Rieni / Gwarcheidwaid,

Croeso i Ysgol Gymraeg Abercynon ar ddechrau blwyddyn academaidd newydd a chyffrous. Edrychaf ymlaen at eich gweld yn ystod yr wythnosau nesaf ac edrychaf ymlaen at gyd-weithio â chi er lles a chynnydd addysgol eich plentyn.

Amseroedd Yr Ysgol

Mae drysau a gatiau mynediad yn agor am 08:50y.b. gyda gwersi yn cychwyn yn brydlon am 9y.b. Mae'r ysgol yn cau am 3:15y.p. Cesglir disgyblion o'r giatiau mynediad.

Trefniadau casglu plant:

Plant yn y dosbarth meithrin a'r derbyn;

- Casglu o **giat Parc View.**

Plant Blwyddyn 1 a 2;

- I'w gasglu o'r **iard gwaelod,** mae mynediad i'r iard hon yn dod o **giat Abertaf yn unig.**
- Casglwch y plant o'r giât fach (iard chwarae'r Feithrinfa a'r Dderbynfa) ym mhen pellaf yr iard.

Plant Blwyddyn 3, 4, 5 a 6;

- I'w gasglu o'r **grisiau ar ddechrau'r iard gwaelod.**
- Mae mynediad i'r iard hon yn dod o **giat Abertaf yn unig.**

Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd:

Gydag ardaloedd parcio cyfyngedig o amgylch ardal yr ysgol, gofalwch i barcio'n ddiogel a synhwyrol, gan ystyried trigolion yr ardal ar yr un pryd.

Mae'n hollbwysig bod pob defnyddiwr ffordd bod yn ymwybodol o ddiogelwch wrth yrru a pharcio yng nghyffiniau'r ysgol. Gofynnwn i rieni bob amser yrru'n araf ac yn ddiogel o amgylch safle'r ysgol er mwyn sicrhau diogelwch plant a cherddwyr.

Dyletswydd pawb yw diogelwch ein holl blant.

Presenoldeb

Mae'r ysgol yn dilyn canllawiau Sirol ynglŷn ag absenoldebau. Mae presenoldeb cyson yn bwysig iawn. Mewn achos o absenoldeb aml fe fydd yr ysgol yn

Mrs Michelle Barry
Pennaeth
Headteacher

Mr Ioan Thomas
Dirprwy Bennaeth
Deputy Headteacher

Ysgol Gymraeg Abercynon
Greenfield Terrace
Glancynon
CF45 4TH

01443 740239
www.yggabercynon.cymru



cysylltu â'r Swyddog Lles Addysgol yn unol â'r polisi Sirol. Mewn achos o absenoldeb sydyn, gofynnwn i chi gysylltu â swyddfa'r ysgol cyn 9.30 y.b.

Os nad ydych wedi cysylltu cyn 10:00 y.b. cewch neges Dojo yn eich atgoffa. Oni fyddwn yn derbyn galwad ffôn neu neges gan riant yna fe nodir fod eich plentyn yn absennol heb ganiatâd. Pan fo achos o absenoldeb wedi ei gynllunio ymlaen llaw e.e. apwyntiad meddygol, dylech ddanfon nodyn ymlaen llaw. Gofynnwn i chi hefyd nodi os bydd eich plentyn nôl mewn amser i gael cinio.

## Absenoldebau yn ystod y tymor

Mae'n ofyniad cyfreithiol i rieni/gofalwyr gael caniatâd y Pennaeth cyn symud eu plentyn o'r ysgol er mwyn cymryd unrhyw wyliau yn ystod y tymor. Nid oes gan rieni hawl awtomatig i fynd â'u plant allan o'r ysgol am absenoldeb yn ystod y tymor a gallant gael Hysbysiad Cosb os ydynt yn gwneud hynny heb drefniant ymlaen llaw gyda'r Pennaeth. Mae'r ddeddfwriaeth ond yn caniatáu i'r Pennaeth awdurdodi absenoldeb o'r fath mewn amgylchiadau eithriadol. I wneud cais i blentyn gael caniatâd dylai rhieni lenwi'r ffurflen absenoldebau sydd ar wefan yr ysgol a'i dychwelyd i'r ysgol i'w hystyried ymhell cyn yr absenoldeb arfaethedig a chyn ymrwymo i unrhyw gost.

Ffurflen Gwyliau Holiday Form (1).docx - Google Docs

## Addysg Gorfforol

Bydd angen cit Addysg Gorfforol ar eich plentyn a bydd staff yn eich hysbysu yn fuan pa ddyddiau y bydd eich plentyn yn cymryd rhan mewn gwersi Addysg Gorfforol.

I arbed amser ar y dydd, gofynnaf yn garedig i'ch plentyn ddod i'r ysgol yn eu cit Addysg Gorfforol ar y diwrnodau dynodedig os gwelwch yn dda.

## Cyfathrebu

Rydym yn defnyddio llwyfan cyfathrebu 'Dojo' i gyfathrebu gyda chi yn ddyddiol. Mae croeso ichi i gysylltu i rannu negeseuon megis newid i drefn casglu neu ddychwelyd eich plentyn, rhannu apwyntiad meddygol neu i ofyn cwestiwn neu rannu pryder. Hoffwn atgoffa bod rhaid cysylltu trwy swyddfa'r ysgol os yw eich plentyn yn absennol o'r ysgol am unrhyw reswm. Hoffwn nodi ni fydd athrawon yn ateb negeseuon cyn 8.30yb ac ar ôl 4.30yp.

# Ysgol Gymraeg Abercynon

Mrs Michelle Barry
Pennaeth
Headteacher

Mr Ioan Thomas
Dirprwy Bennaeth
Deputy Headteacher

Ysgol Gymraeg Abercynon
Greenfield Terrace
Glancynon
CF45 4TH

01443 740239
www.yggabercynon.cymru

Cenedl Heb Iaith, Cenedl Heb Galon

Sylwch, ni fyddwn yn derbyn negeseuon anaddas, gan gynnwys rhai sy'n cynnwys iaith ymosodol neu beryglus o dan unrhyw amgylchiadau. Bydd pob un o'r negeseuon hyn yn cael eu dogfennu a'u rhannu â'r sir, yn unol â pholisi'r sir.

Mae ClassDojo yn offeryn ar gyfer cyfathrebu byr. Os oes gennych bryder i'w drafod, cwestiwn, neu os dymunwch siarad am ddigwyddiad yn fanwl, cysylltwch am gyfarfod neu alwad ffôn. Ni fyddwn yn derbyn negeseuon helaeth sy'n cael eu cyfeirio at y staff a byddant eto'n cael eu rhannu â'r sir yn unol â pholisi RCT.

Disgwylir i gyfathrebu i gael ei gynnal yn barchus ac adeiladol. Diolch am eich cydweithrediad gyda'r mater hwn.

## Gwefan yr Ysgol

Mae gwefan yr ysgol yn gyfredol ac yn cynnwys llawer o wybodaeth am yr ysgol gan gynnwys copiau o lythyron a chylchlythyron:

www.yggabercynon.cymru

Dilynwch ni ar Instagram:

## Cinio Ysgol

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cinio ysgol am ddim o fis Medi i ddisgyblion dosbarth meithrin i flwyddyn 6.

Os ydych yn meddwl eich bod yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim gallwch ymgeisio trwy'r linc at wefan Rhondda Cynon Taf: Free School meals - Apply for free school meals | Rhondda Cynon Taf County Borough Council (rctcbc.gov.uk)

Mae gwybodaeth am fwydlen cinio ysgol ar ein gwefan.

## Pecyn Bwyd Iach a Siop Ffrwythau

Rydym yn ysgol iach achrededig. Annogwch ichi i ddarparu bocsys a byrbryd iachus i'ch plentyn. Mae gwybodaeth a syniadau ar sut i baratoi pecyn bwyd iach ar wefan yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cynnal siop ffrwythau. Bydd ffrwythau ar gael i ddisgyblion o'r Meithrin i flwyddyn 3 bob dydd ar gost o £25.00 am y flwyddyn. Anfonwch yr arian mewn amlen gydag enw eich plentyn, dosbarth, arian ffrwythau wedi ei

Mrs Michelle Barry
Pennaeth
Headteacher

Mr Ioan Thomas
Dirprwy Bennaeth
Deputy Headteacher

Ysgol Gymraeg Abercynon
Greenfield Terrace
Glancynon
CF45 4TH

01443 740239
www.yggabercynon.cymru




ysgrifennu'n glir. Bydd blynyddoedd 4,5 a 6 yn prynu eu ffrwythau bob dydd am gost o 40c yn y Siop Ffrwythau Ysgol.

Grawnwin:

Noder os gwelwch yn dda, oherwydd pryderon am dagu, os ydych yn darparu grawnwin i'ch plentyn a wnewch chi eu torri yn hanner ar eu hyd.

Clwb Brecwast:

Mae ein Clwb brecwast yn agored o 8:10 - 8:30yb. Ceir mynediad trwy ddrysau y neuadd a gofynnir i rieni barcio a cherdded eu plant at y drws. Blaenoriaethi'r llefydd i ddisgyblion Prydau Ysgol am Ddim yn y lle cyntaf. Os hoffech wneud cais am le cysylltwch a wefan RCT am le i'ch plentyn.

[Primary School Free Breakfast Club | Rhondda Cynon Taf County Borough Council (rctcbc.gov.uk)]

Mae angen gwneud defnydd cyson o'r lle neu byddwn yn ei ddynodi i ddisgybl arall a cewch eich hysbysu am hyn.

Yn dechrau ar Ddydd Llun Medi'r 8fed nodi'r gan RCT y dylai rhieni neu warcheidwaid lofnodi eu plentyn wrth ollwng yn Clwb Brecwast bob bore. Mae hyn i sicrhau diogelwch a chofrestriad cywir y plant i gyd sy'n mynychu. Heb lofnod rhieni neu warcheidwaid, ni chaniateir i blant aros yn y clwb. Rydym yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad wrth ddilyn y weithdrefn bwysig hon.

Mae RCT wedi cynghori nid oes hawl i rieni barcio yn y maes parcio ysgol oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch. Pan fyddwch yn gollwng eich plentyn yn y Clwb Brecwast, please peidiwch â defnyddio'r maes parcio ysgol. Gofynnwn yn garedig i chi barcio yn ddiogel rhywle arall, gan ddangos ystyriaeth tuag at ein cymdogion.

Alergeddau:

Mae'n hanfodol eich bod yn hysbysu'r ysgol yn syth os yw'ch plentyn yn datblygu alergedd.

Meddyginiaeth

Asthma: Mae'n ofynnol i rieni sicrhau bod plant sy'n dioddef o'r cyflwr hwn yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r sugnydd heb gymorth oedolyn. Dylai rhieni sicrhau bod y sugnydd wedi cael ei labelu yn glir ag enw'r plentyn. Cedwir y sugnyddion yn

Mrs Michelle Barry
Pennaeth
Headteacher

Mr Ioan Thomas
Dirprwy Bennaeth
Deputy Headteacher

Ysgol Gymraeg Abercynon
Greenfield Terrace
Glancynon
CF45 4TH

01443 740239
www.yggabercynon.cymru



ystafelloedd dosbarth ac mae'r plant yn cael y rhyddid i ddefnyddio eu sugnyddion yn ôl y galw. Cyfrifoldeb rhieni ydy sicrhau fod sugnyddion mewn dyddiad ac i adnewyddu yn ôl y galw.

Os oes gan eich plentyn gyflwr meddygol mae'n bwysig eich bod yn ein hysbysu ni. Cysylltwch â'r swyddfa gyda'r manylion os gwelwch yn dda.

Moddion: Mae'r ysgol yn dilyn polisi'r Sir o ran gweinyddu moddion. Nid yw'r ysgol yn caniatáu unrhyw foddion o fewn yr adeilad, mae hyn yn cynnwys losin at ddolur gwddw neu annwyd e.e. Lockets, ac unrhyw eli. Ni fydd aelodau o staff yn gweinyddu moddion i blentyn. Byddem yn ddiolchgar petaech yn ceisio amseru dosau meddyginiaeth o gwmpas oriau'r ysgol. Pe na bai hynny'n bosib gofynnwn i chi lenwi ffurflen ganiatad gweinyddu moddion (presgripsiwn yn unig) a caiff eich cais ei ystyried. Caiff ddarganfod y ffurflen ar wefan yr ysgol.

Cais Meddyginiaeth.docx (primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com)

## Arweinyddiaeth Strategol yr Ysgol:

Mae manylion ein strwythur arwain isod. Mae croeso cynnes i chi drefnu apwyntiad i weld aelodau'r tîm sy'n gyfrifol am rannau gwahanol o'r ysgol:

Mrs Michelle Barry - Pennaeth

Mr Ioan Thomas - Dirprwy Bennaeth ac arweinydd Cam Cynnydd 3

Mrs Kate Marsh - Arweinydd Cam Cynnydd 1 a 2

Mr David Davies - ALENCo

Mrs Abi Lock - Arweinydd Cwricwlwm i Gymru

## Diogelu ac Amddiffyn Plant:

Swyddog Diogelu ac Amddiffyn Plant Dynodedig: Mrs. Michelle Barry.

Dirprwy Swyddogion Diogelu ac Amddiffyn Plant Dynodedig : Mr Ioan Thomas, Mr David Davies a Mrs Abi Lock.

# Ysgol Gymraeg Abercynon

Mrs Michelle Barry
Pennaeth
Headteacher

Mr Ioan Thomas
Dirprwy Bennaeth
Deputy Headteacher

Ysgol Gymraeg Abercynon
Greenfield Terrace
Glancynon
CF45 4TH

01443 740239
www.yggabercynon.cymru

Cenedl Heb Iaith, Cenedl Heb Galon

Llywodraethwr Diogelu ac Amddiffyn Plant: Mrs Lisa Young

Manylion cyswllt:

Sicrhewch fod gan swyddfa'r ysgol fanylion cyswllt argyfwng cyfredol i'ch plant. Mae'n hanfodol eich bod yn rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau yn ystod y flwyddyn.

Noson Groeso 17.9.25  (Derbyn i flwyddyn 6)

Cyfle i chi ymweld â dosbarth eich plentyn, cyfarfod â'r athrawon a chlywed ychydig am waith y flwyddyn a sut allwn weithio'n effeithiol gyda'n gilydd i sicrhau addysg o'r radd flaenaf i'n holl ddisgyblion. Byddwn yn rhannu cyflwyniad â chi a bydd angen dewis un sesiwn, 3:45yh, 4;15yh neu 4:45yh. Gofynnwn i chi hysbysu'r athrawon trwy DOJO pa amser rydych yn dymuno galw heibio.

Dymuniadau gorau,

Mrs M Barry

PENNAETH

# Ysgol Gymraeg Abercynon

Mrs Michelle Barry
Pennaeth
Headteacher

Mr Ioan Thomas
Dirprwy Bennaeth
Deputy Headteacher

Ysgol Gymraeg Abercynon
Greenfield Terrace
Glancynon
CF45 4TH

01443 740239
www.yggabercynon.cymru

Cenedl Heb Iaith, Cenedl Heb Galon